PRIFYSGOL Wrecsam | Wrexham UNIVERSITY

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wrecsa a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 10 Mawrth 2023** am 9.00am trwy gyfrwng Zoom.

**Presennol**:

Paul Barlow
Richard Campbell
Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Yr Athro Maria Hinfelaar
Lauren Hole
Yr Athro Sandra Jowett
Dr Karen Heald
Sally Lambah
Diane McCarthy
Judy Owen
Amy Rowley *[Eitemau 22.47 i 22.54 a 2.66 yn unig]*
David Sprake
David Subacchi
Richard Thomas *[Eitemau 22.47 i 22.54 yn unig]*
Liam Wynne

**Swyddogion:**

Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Yr Athro Richard Day *(PVC Research)*
James Dawson *(Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) [Eitemau 22.48 i 22.54, 22.66 a 2.67 yn unig]*
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*

**Ymddiheuriadau:**

Jim Barclay
Yr Athro Martin Chambers
Claire Homard
Paul McGrady
Yr Athro Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Maureen Wain

<table>
<tr><td>22.47</td><td>Cyfarfod heb Swyddogion</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Derbyniwyd:<br>Cynnig i ddirprwyo i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i graffu ar a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch:<br><br>• gweithdrefn ysgrifenedig am benodi, cydnabyddiaeth ariannol, cytundeb ac amodau gwasanaeth deiliaid uwch swyddi.<br><br>• y broses a'r amserlen ar gyfer penodi Dirprwy Is-Ganghellor, gyda mewnbwn a chyngor gan yr Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol.<br><br>Penderfynwyd:<br>CYMERADWYO dirprwyo i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fel y cynigiwyd.</td><td></td></tr>
<tr><td>22.48</td><td>Croeso ac ymddiheuriadau</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Diolchwyd i'r aelodau am gytuno i gyfarfod ar-lein oherwydd y tywydd gwael.</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Croesawyd Dr Karen Heald i'w chyfarfod Bwrdd cyntaf.<br><br>Llongyfarchwyd Amy Rowley ar ei hetholiad fel Llywydd yr Undeb Myfyrwyr am y flwyddyn 2023/24. Llongyfarchwyd Maisie Head hefyd a etholwyd yn Is-Lywydd. | |
| **22.48** | **Datgan buddiannau** | |
| | Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau ynghylch eitemau ar yr agenda. | |
| **22.49** | **Gweithredoedd y Cadeirydd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad ar y camau gweithredu gan y Cadeirydd i gymeradwyo dyfarnu contract darparu Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol i staff a myfyrwyr y Brifysgol, a chymeradwyo'r cais am fân newidiadau i enwau yn yr Offeryn ac Erthyglau i adlewyrchu iaith gynhwysol nad yw'n pennu rhywedd.<br>(ii) Adroddiad ar y dogfennau a ddosbarthwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd fel mater o gofnod.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiadau. | |
| **22.50** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2022 ac 11 Ionawr 2023.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd. | |
| **22.51** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br>(ii) Gorchymyn y Cyfrin Gyngor a'r Offeryn ac Erthyglau diwygiedig cymeradwy sy'n adlewyrchu'r newid yn nheitl y Brifysgol i Brifysgol Wrecsam/Wrexham University.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Bod camau'n cael eu cymryd i hysbysu cyrff statudol a sefydliadau lle mae cytundebau cyfreithiol yn bodoli gyda nhw ynghylch teitl newydd y Brifysgol.<br><br>Byddai 'Prifysgol Glyndŵr Wrecsam' yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion marchnata nes bod y prosiect ailfrandio wedi'i gwblhau a'i lansio. Roedd y prosiect ailfrandio yn gwneud cynnydd da.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.52** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad yr Is-Ganghellor.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd yr Is-Ganghellor sylw at y trafodaethau ynghylch recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a chynaliadwyedd ariannol yn deillio o gyfarfod Prifysgolion Cymru yn ddiweddar.<br><br>Ni phenodwyd darpar Brif Weithredwr i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil hyd yma, ond roedd sefydlu'r Comisiwn yn parhau i fynd rhagddo fel y cynlluniwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn deillio o gyfarfod Prifysgolion y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth, nodwyd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu datblygu gweledigaeth a strategaeth 10 mlynedd ar sgiliau i'r economi sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydweithredu cryf rhwng sectorau. Hefyd, yn dilyn adolygiad Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU, dan arweiniad y Gwir Anrhydeddus Chris Skidmore AS, bydd cenhadaeth 10 mlynedd 'Cenhadaeth Sero' yn cael ei lansio. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfraniad Prifysgolion i gyflawni'r cenadaethau Sero Net hyn.<br><br>Roedd yr Is-Ganghellor wedi ysgrifennu darn yn rhannu ei barn yn y cyfryngau cymdeithasol am Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o leihau ac ail-flaenoriaethu buddsoddi mewn cynlluniau ffyrdd newydd a rhoi pwyslais ar gludiant cyhoeddus a theithio egnïol.<br><br>Mae Prifysgolion y DU yn bwriadu datblygu strategaeth newydd sy'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd ariannol, dirnadaeth gyhoeddus am brifysgolion a recriwtio myfyrwyr rhyngwladol gyda newidiadau posibl i bolisi mewnfudo Llywodraeth y DU.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.53** | **Adroddiad yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr am etholiadau diweddar yr Undeb Myfyrwyr. Roedd cystadleuaeth am swyddi sabothol y Llywydd ac Is-Lywydd yr Undeb Myfyrwyr, gyda thri myfyriwr wedi rhoi eu henwau i fod yn Llywydd a dau i fod yn Is-Lywydd. Llongyfarchwyd Amy Rowley a Maisie Head unwaith eto ar eu llwyddiant yn yr etholiadau. Llenwyd chwech o'r swyddi a byddai'r rhai sy'n parhau'n wag yn mynd drwy broses etholiad ym mis Hydref.<br><br>Adroddodd Is-Lywydd yr Undeb Myfyrwyr bod eu polisi ar gyfyngu nifer y rhai sy'n mynd i gynadleddau NUS Cymru wedi'i gymeradwyo i'w drafod yn y Gynhadledd ar 22 Mawrth. Nod y Polisi oedd mynd i'r afael â'r annhegwch yn y gynrychiolaeth o brifysglion Gogledd a Chanolbarth Cymru, a oedd yn arwyddocaol is na'r gynrychiolaeth o brifysgolion yn Ne Cymru.<br><br>Ni fu'n bosibl ailgyflwyno Varsity eleni, fodd bynnag, trefnwyd digwyddiad amgen, 'Gemau Glyndŵr,' i'w cynnal ar 24 Mawrth 2023.<br><br>Roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi derbyn peth beirniadaeth am y penderfyniad i sefydlu Digwyddiad Graddio ym mis Mai yn flynyddol yn hytrach na'r Seremoni Raddio draddodiadol ym mis Tachwedd. Eglurodd y Dirprwy Is-Ganghellor gefndir a chyd-destun y penderfyniad, a ddeilliodd o'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan fyfyrwyr a'u teuluoedd yn dilyn yr Ŵyl Raddio a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 i'r rhai na fu modd iddynt ddathlu eu cyflawniadau yn ystod pandemig Covid. Byddai'r Digwyddiad Graddio ym mis Mai yn cyfuno rhai o elfennau traddodiadol Seremoni Raddio gyda gweithgareddau dathlu awyr agored yr Ŵyl, y byddai'n rhaid cael tywydd da ar eu cyfer.<br><br>Yn wreiddiol roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi cytuno ar y fformat newydd, fodd bynnag, roedd nifer fechan o fyfyrwyr wedi gwneud sylwadau negyddol trwy'r mecanweithiau adborth myfyrwyr, ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ystod yr ymgyrchu ar gyfer y swyddi swyddogion sabothol. Roedd y sylwadau'n bennaf ar y cyfnod amser y byddai'n rhaid i myfyrwyr aros rhwng cwblhau eu cwrs a dod i Ddigwyddiad Graddio. Anfonwyd hysbysiadau i rai miloedd o fyfyrwyr ynghylch y fformat a'r dyddiad newydd, ac roedd nifer fechan nad oeddynt yn cefnogi'r newid. Cydnabuwyd bod | |

| | | |
|---|---|---|
| | swyddogion yr Undeb Myfyrwyr mewn sefyllfa anodd gan fod eu rôl craidd yn ymwneud ag eiriol ar ran llais y myfyrwyr.<br><br>Ymchwiliwyd i amseriad Seremonïau Graddio a nodwyd bod llawer o brifysgolion yn eu cynnal ym mis Gorffennaf. Adroddwyd, oherwydd amseriad arholiadau ailsefyll a chyfnodau dechrau lluosog i rai rhaglenni, byddai rhai myfyrwyr na fyddent yn medru dathlu gyda'u carfan myfyrwyr bob tro. Byddai seremoni ym mis Mai, er ei fod 9 mis ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd flaenorol, yn rhoi'r cyfle i gymaint o fyfyrwyr ag y bo'n bosibl i ddathlu gyda'u cyd-fyfyrwyr. Eglurwyd, yn ei hanfod, mae myfyrwyr yn graddio yn dilyn y Bwrdd Asesu, sy'n cadarnhau eu dyfarniad terfynol ac yn ysgogi cyflwyno eu tystysgrif. Ni fyddai Digwyddiad Graddio hwyrach yn effeithio'n negyddol ar gamu ymlaen yn eich gyrfa.<br><br>Byddai'r Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr yn parhau i weithio gyda'i gilydd i gefnogi ei gilydd a hybu rhinweddau'r Digwyddiad Graddio ar ei newydd wedd, gan nodi y byddai newid i'r cynlluniau cyfredol yn debygol o gynhyrchu set o broblemau eraill.<br><br>Byddai'r Undeb Myfyrwyr yn parhau i gasglu adborth ac yn cydweithio â'r Brifysgol i sicrhau Digwyddiad Graddio llwyddiannus yn yr haf a hysbysu cynllunio graddio blynyddoedd y dyfodol.<br><br>Croesawodd y Bwrdd ddyfnder ac ehangder adroddiad yr Undeb Myfyrwyr, yn cynnwys y ffordd roedd yn tynnu sylw at faterion o bwys i fyfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.54** | **Arolwg Ymgysylltu â Staff 2022** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Canlyniadau'r Arolwg Ymgysylltu â Staff 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol yr adroddiad a thynnodd sylw at y camau sy'n cael eu cymryd i gyfathrebu canlyniadau'r arolwg i staff ac i gasglu rhagor o adborth i hysbysu camau gweithredu yn y dyfodol.<br><br>Bu'r aelodau'n ystyried pam bod canlyniadau 2020 yn cael eu cyfrif fel set o ganlyniadau brig a pham nad oedd gostyngiad yn y canran i rai cwestiynau yn 2022 yn cael ei ystyried fel rhywbeth negyddol. Adroddwyd, o edrych arnynt ar eu pen eu hunain, roedd canlyniadau 2022 yn gadarnhaol iawn ac roedd y canlyniadau yr un fath yn bennaf neu wedi gostwng ychydig ers 2020. Roedd arolwg 2022 yn berthnasol i'r cyfnod pan oedd cyfyngiadau Covid yn weithredol.<br><br>Bu'r aelodau'n edrych ar pam bod y sgorau ar gyfer y ddau gwestiwn am lywodraethwyr yn is nag yn 2022, serch hynny'n uwch nag yn 2016 a 2018. Gallai hyn fod oherwydd nifer o ffactorau, yn cynnwys nifer arwyddocaol o staff newydd nad ydynt mor gyfarwydd â rhai o gyrff gwneud penderfyniadau'r brifysgol, a bod proffil y Bwrdd a'i allu i gwrdd â staff a myfyrwyr wedi lleihau yn ystod pandemig Covid. Roedd y gostynigad yn y chwartel yn erbyn y meincnod allanol yn anodd i'w esbonio gan nad yw'n hysbys beth oedd safle prifysgolion eraill yn y blynyddoedd blaenorol a faint o waith roeddent wedi'i wneud i wella eu sgorau. Roedd y testun sy'n cyd-fynd â phob cwestiwn yn yr arolwg wedi'i adolygu ac nid oedd unrhyw wybodaeth o ran y rhesymau am y cwymp yn y sgorau ar gyfer y ddau gwestiwn hwn.<br><br>Byddai'r llywodraethwyr yn dymuno creu sicrwydd eu bod yn gwybod am ac yn deall yr heriau allweddol sy'n wynebu'r Brifysgol. Byddai'n rhaid ymchwilio i'r cysylltiad rhwng presenoldeb ac ymgysylltu gan y llywodraethwyr ar y campws a chynnal | |

| | | |
|---|---|---|
| | trafodaethau fel rhan o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol i geisio cael rhagor o wybodaeth.<br><br>Roedd y boddhad cyffredinol, lle mae staff yn hapus yn gweithio ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ac yn ystyried y Brifysgol yn lle da i weithio ynddi, yn parhau ar 92%. Croesawodd y Bwrdd y canlyniadau cadarnhaol ar y cyfan, a nodwyd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid i'w gynnal, gyda chanlyniadau hynny i hysbysu gwelliannau lle bo angen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI canlyniadau'r Arolwg Ymgysylltu â Staff a'r camau nesaf. | |
| **22.55** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Yr Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Ionawr 2023.<br>(ii) Papur briffio ar Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA).<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**22.55.01 Adroddiad Rheolaeth Ariannol**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad yn tynnu sylw at ragfynegiad y flwyddyn lawn, sef diffyg gweithredol o £234k yn erbyn gwarged gweithredol o £113k yn y gyllideb. Byddai gwerthu safle Ffordd y Deon yn rhoi gwarged gwaelodlin net o tua £3m. Amlinellwyd yr amrywiadau positif a negyddol a oedd yn cyfrannu at y rhagfynegiad.<br><br>Nododd yr aelodau'r cynnydd yn ffioedd asiantiaid rhyngwladol, ac esboniwyd bod myfyrwyr rhyngwladol yn astudio dros ddwy flynedd felly, tra bo'n rhaid i'r incwm gael ei gydnabod dros ddwy flynedd, roedd talu ffioedd yr asiant yn cael eu talu a'u cofnodi yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cofrestru'r myfyrwyr.<br><br>Rhoddwyd eglurder ar swm yr incwm gan fyfyrwyr rhyngwladol a gan bartneriaethau academaidd. Gofynnwyd am ragor o esboniad am sefyllfa incwm a gwariant y ddau faes hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>Adroddwyd bod y trafodaethau cyflogau wedi dechrau'n gynnar ar gyfer 2023/24 i gydnabod y sefyllfa costau byw. Roedd UCEA wedi rhoi cyfarwyddiadau i sefydliadau gyflwyno dyfarniad cyflog o 2% o 1 Chwefror 2023 a fyddai'n cael effaith o tua £275k dros chwe mis yn y flwyddyn. Byddai'r 3% sy'n weddill yn cael ei gyflwyno ar 1 Awst 2023.<br><br>Nododd yr aelodau'r gweithredoedd lliniaru wedi'u cynnwys yn y rhagfynegiad yn awr, ond holwyd am statws y gweithredoedd lliniaru ychwanegol heb eu meintioli hyd yma. Cadarnhawyd bod y cyfleoedd ychwanegol hyn yn cyflwyno buddion potensial a phwysleisiwyd yr angen i wneud arbedion ac uchafu cyfleoedd i gynhyrchu incwm hefyd.<br><br>**22.55.02 Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA)**<br>Tynnwyd sylw at fanteision defnyddio EBITDA fel ffordd o fonitro gwir berfformiad ariannol y Brifysgol. Tybiwyd bod hwn yn fesur mwy effeithiol na Gwarged/Diffyg Net, a oedd yn fwy tueddol o gael ei wyrdroi oherwydd cyfrifyddu pensiynau. Mae EBITDA yn fwy cymharol i allu'r Brifysgol i gynhyrchu arian parod. Mae bancwyr a darpar fenthycwyr yn defnyddio'r mesur hwn. Awgrymwyd ychwanegu EBITDA fel Dangosydd Perfformiad Allweddol y perfformiad ariannol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R Adroddiad Rheolaeth Ariannol. | **DE** |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R papur briffio EBITDA a CHADARNHAU defnyddio EBITDA fel Dangosydd Perfformiad Allweddol ariannol. | |
| **22.56** | **Partneriaethau Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad Partneriaethau Academaidd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Byddai PVC Partnerships yn cyflwyno adroddiad manylach i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.<br><br>Gofynnodd Cadeirydd y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau am ragor o wybodaeth am faint a natur yr heriau mae partneriaid yn eu wynebu wrth fodloni dyddiadau cau'r Bwrdd Asesu cyn cael yr adroddiad manylach ym mis Mai.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **AM** |
| **22.57** | **Campws Manceinion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ynghylch Campws Manceinion.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Penderfynwyd ar fodel staffio diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth academaidd yng Nghampws Manceinion. Yn ychwanegol, mae LSC, y partner masnachol, yn bwriadu diwygio eu model busnes a strwythur y cwmni. Byddai angen datblygu Memorandwm Cytundeb newydd o ganlyniad i hyn. CYTUNWYD i gyflwyno'r Memorandwm Cytundeb newydd arfaethedig a chynllun busnes diwygiedig i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn gyntaf.<br><br>Holodd yr aelodau beth fyddai'r effaith ar y gyllideb os bydd oedi pellach cyn recriwtio ar gyfer Campws Manceinion. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw rhagdybiaethau incwm yng nghyllideb 2022/23 a byddai angen ystyried cynnwys incwm ar gyfer 2023/24 yn ystod y broses o baratoi'r gyllideb.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **AM** |
| **22.58** | **Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Papur briffio ar broses craffu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd PVC Research yr adroddiad gan dynnu sylw at y dyddiadau allweddol y byddai cynrychiolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar y safle i gyfarfod staff a llywodraethwyr ac i arsylwi ar gyfarfodydd. Byddent yn arsylwi ar gyfarfod y Bwrdd ar 19 Mai yng nghampws Llanelwy. Esboniwyd y protocolau sy'n gysylltiedig ag arsylwi ar gyfarfodydd.<br><br>Mae Aseswyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ymwybodol o gyfarfodydd y Bwrdd i'w cynnal ar 27 a 28 Ebrill pan fyddant ar y safle. Cadarnhawyd mai'r Llywodraethwyr y gofynnwyd iddynt fod yn rhan o'r cyfarfod grŵp gyda'r Aseswyr fyddai Dr Leigh Griffin, Yr Athro Sandra Jowett, Richard Thomas a'r Athro Martin Chambers.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.59** | **Campws 2025** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad Campws 2025.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau roi diweddariad i'r Bwrdd ar y datblygiadau ers yr ysgrifennwyd yr adroddiad.<br><br>Yng nghyswllt safle Ffordd y Deon, ni fu unrhyw wrthwynebiadau yn deillio o osod ffens i atal mynediad trwy'r giat cefn i gaeau chwarae'r Brifysgol i ymdrin ag unrhyw hawliad o hawddfraint rhagnodedig, ac ni fu unrhyw hawliadau ymgyfreitha. Felly, roedd cwblhau'r gwerthiant yn bwrw ymlaen. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bwriad i weithredu'r opsiwn o brynu'r tir ar gornel Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin yn ffurfiol, ond mynegwyd y bwriad i wneud hynny yn anffurfiol.<br><br>Roedd manylebau tendr ar gyfer cam 2A y prosiect Chwarter Addysg a Gwella Iechyd i'w cyhoeddi ar Gwerthwch i Gymru yn fuan. Mae'r cais cynllunio ar gyfer cam 2B yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'i gyflwyno i adran gynllunio'r Cyngor yn gynnar ym mis Ebrill. Byddai amser dechrau'r gwaith yn dibynnu ar faint o amser mae'n gymryd i'r Cyngor gymeradwyo'r cynllun, ond y dyhead wedi'i seilio ar waith adeiladu am 56 wythnos fyddai cwblhau'r gwaith erbyn mis Hydref 2024.<br><br>Bu ymgysylltu cadarnhaol yn ddiweddar gyda'r Undeb Myfyrwyr ynghylch ei gofynion ar gyfer yr Adeilad Porth Dysgu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.60** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, a oedd yn cynnwys bod yn bresennol yn nigwyddiad lansio llwyddiannus y Chwarter Addysg a Gwella Iechyd ar 3 Chwefror, a chwblhau ei ail rownd o gyfarfodydd un i un gyda'r llywodraethwyr.<br><br>Tynnwyd sylw at themâu o gyfarfodydd diweddar Cadeiryddion Prifysgolion Cymru, yn cynnwys effaith ffioedd dysgu heb gynyddu ar y sector yng Nghymru. Roedd yr Athro Colin Riordon wedi ysgrifennu erthygl ar effaith hyn ar gynaliadwyedd prifysgolion yng Nghymru. Roedd aelodau Cadeiryddion Prifysgolion Cymru i fod i gwrdd â'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ym mis Mai pan fyddent yn manteisio ar y cyfle i gyfleu'r heriau yn deillio o'r ffioedd dysgu sefydlog. Roedd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru i gyfarfod ar y cyd ym mis Mehefin, a fyddai'n rhoi cyfle i sicrhau neges gyson ynghylch y ffioedd dysgu, gan fod Prifysgolion Cymru yn mynd i gyfarfod y Gweinidog hefyd.<br><br>Mae Cadeiryddion Prifysgol Cymru wedi derbyn crynodeb o gynlluniau gweithredu sefydliadau i fynd i'r afael ag ymrwymiadau gweithredu Adolygiad Camm ac roeddynt yn fodlon y gwnaed cynnydd da. Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi adolygu cydymffurfio yn erbyn templed yr Adroddiad Blynyddol yn deillio o Adolygiad Camm ac wedi tynnu sylw at rai meysydd lle roedd angen cryfhau'r naratif a'r cydymffurfio. Darparwyd adborth i sefydliadau unigol hefyd a bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei ystyried yn eu cyfarfod ym mis Mawrth. Roedd Adroddiad Blynyddol y Brifysgol wedi cydymffurfio â'r templed ac eithrio am dri mân bwynt a byddwn yn mynd i'r afael â nhw yn adroddiad y flwyddyn nesaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |

| 22.61 | **Y Bwrdd Academaidd** | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023.<br>(ii) Diweddariad i'r Bwrdd Academaidd ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Uniondeb Academaidd.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol ar y Concordat i gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Edrychwyd ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Uniondeb Academaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Academaidd. Roedd un cwestiwn ynghylch sicrhau adnoddau, yn enwedig yng nghyswllt y gofynion adnoddau i'w weithredu gan na chyfeiriwyd at hyn yn y diweddariad. Roedd yr Adroddiad Adolygiad Annibynnol Uniondeb Academaidd a gynhaliwyd gan Tim Cobbett wedi nodi'r angen i fuddsoddi yn y seilwaith angenrheidiol i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol. Cadarnhawyd bod cynllun adnoddau wedi'i gymeradwyo gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor ar gost o tua £78k am y cyfnod o fis Chwefror i fis Gorffennaf 2023. Byddai'r cynllun adnoddau hwn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd.<br><br>[*Nodyn gan yr ysgrifennydd: cytunwyd ar y cynllun adnoddau, a bydd yn cael ei fonitro gan Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor i ddarparu cyllid i gyflawni agweddau o'r cynllun gweithredu Deallusrwydd Artiffisial, wedi'i gyllido o refeniw yn deillio o fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'n nodi cyllid ar gyfer datblygu adnoddau uniondeb academaidd, hyfforddiant ymwybyddiaeth rhyng-ddiwylliannol, ehangu'r cymorth gyda Saesneg mewn sesiynau a gwella'r system monitro presenoldeb.*]<br><br>Roedd swyddogion cyfrifol wedi'u henwi yn erbyn pob argymhelliad i sicrhau bod camau gweithredu yn digwydd a'r dystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu, gyda PVC Partnerships a'r Deon Cyswllt Datblygiad Academaidd yn meddu ar rôl allweddol yn cadw trosolwg cyffredinol ar y gwaith sy'n cael ei wneud.<br><br>Tra bo swyddogion yn adrodd y cynhaliwyd gwaith i ymdrin â'r gweithredoedd gofynnol rhwng llunio fersiwn derfynol y cynllun gweithredu ar 12 Rhagfyr 2022 a chyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Academaidd ar 8 Chwefror 2023, roedd yr aelodau o'r farn nad oedd y diweddariad ysgrifenedig yn glir ynghylch faint o waith a wnaed ac nid oedd y cywair na'r cynnwys yn dangos y newid allweddol sydd ei angen i ymdrin â'r materion pwysig a nodwyd yn yr Adroddiad Adolygiad Annibynnol.<br><br>O ran graddfa'r gwaith, roedd yr aelodau'n disgwyl gweld data, ble'r oedd ar gael, er enghraifft, canlyniadau adolygiad y Swyddfa Ryngwladol ar y meini prawf iaith Saesneg a'r hyn roedd y meincnodau'n tynnu sylw atynt, nifer y myfyrwyr y darparwyd mwy o gyfeiriadu a briffio ar Uniondeb Academaidd iddynt hyd yma, nifer y sesiynau dilynol a ddarparwyd a'r rhai a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2023, nifer yr asiantiaid sydd wedi neu y trefnwyd iddynt dderbyn hyfforddiant a'r gweithgareddau gwaelodlin ar gyfer cymorth mewn sesiynau a grybwyllir. Teimlwyd bod angen i'r adroddiad fod yn fanylach ac yn fwy miniog i ddangos yn eglur sut rydym ni'n mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr Adroddiad Adolygiad Annibynnol a dangos bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Uniondeb Academaidd yn effeithiol.<br><br>Gofynnwyd am ddosbarthu nodyn ychwanegol cyn y cyfarfod ym mis Mai i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod y cynllun gweithredu ar y trywydd cywir ac y byddai'n mynd i'r afael yn gadarn â'r pryderon arwyddocaol a nodwyd ynghylch Uniondeb Academaidd. Byddai angen i'r diweddariad nodi nifer y myfyrwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, er enghraifft, a rhoi manylion y newidiadau a gyflwynwyd. Os yw myfyrwyr yn aneglur ynghylch yr hyn sy'n ofynnol a'r hyn sy'n ddewisol, er enghraifft, sut maent yn ymdrin â hynny. | **CT**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**AM/ MH** |

| | | |
|---|---|---|
| | **22.61.01 Concordat i gefnogi Datblygiad Ymchwilwyr**<br>Darparodd PVC Research yr wybodaeth gefndir a phwrpas mabwysiadu'r Concordat. Cefnodwyd yr adroddiad blynyddol a gyflwynwyd gan gynllun gweithredu 21 tudalen. Nodwyd bod Arolwg Diwylliant, Cyflogaeth a Datblygiad mewn Ymchwil Academaidd (Culture, Employment and Development in Academic Research Survey - CEDARS) i'w ryddhau gan Vitae a fyddai'n darparu data meincnodi y gellid mesur llwyddiant y cynllun gweithredu yn ei erbyn maes o law.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a'r cofnodion.<br><br>CYMERADWYO'R Adroddiad Blynyddol ar y Concordat i gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr i'w gyhoeddi.<br><br>CYMERADWYO dirprwyo i Gadeirydd y Bwrdd ac un llywodraethwr arall i adolygu a chymeradwyo'r Weithdrefn Cwynion gan Fyfyrwyr a'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. | |
| **22.62** | **Dyddiadau cyfarfoydd y Bwrdd a Phwyllgorau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer 2023/24.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer 2023/24. | |
| **22.63** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **22.63.01 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor ac, yn ei rôl fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd, tynnodd sylw at y cynnydd yn safle'r Brifysgol yn rhestr 100 Uchaf y Cyflogwyr gan Stonewall o safle 47 i safle 41. Yn anffodus, roedd rhai aelodau'r Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi dioddef cam-drin geiriol personol yn eu herbyn ar y cyfryngau cymdeithasol gyda phobl yn feirniadol o werth y Brifysgol yn bod yn gyflogwr sy'n gynhwysol i unigolion Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywio, Cwiar + (LGBTQ+).<br><br>Adroddwyd bod y sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i dileu i'r graddau gorau posibl, a bod y Brifysgol yn gweithredu agwedd o ddim goddefgarwch tuag at unrhyw fath o gam-drin personol.<br><br>Cofnododd y Bwrdd ei longyrchiadau ar gyflawniadau'r Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a arweiniodd at wella'r safle yn rhestr cyflogwyr Stonewall a holwyd pa gymorth y gallai'r Llywodraethwyr ei roi i hyrwyddo gweithgareddau LGBTQ+ ymhellach. CYTUNWYD i ryddhau datganiad ar y cyd gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Is-Ganghellor i'r staff.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 9 Chwefror, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | **PG** |
| | **22.63.02 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023.<br>(ii) Memorandwm Cytundeb drafft rhwng y Brifysgol a North Wales Science Ltd (Xplore!)<br>(iii) Rhagfynegiadau diwygiedig hyd at 2024/25.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad, gan dynnu sylw at y Memorandwm o Gytundeb arfaethedig rhwng y Brifysgol a North Wales Science Ltd. Byddai'r Memorandwm o Gytundeb yn cael ei rannu gyda Bwrdd North Wales Science yn ei gyfarfod nesaf.<br><br>Amlinellwyd sut y gwnaeth y Pwyllgor ystyried y rhagfynegiadau diwygiedig ar gyfer 2024/25. Roedd yr ymarfer wedi bod yn ddefnyddiol yn dangos sut roedd effaith yr incwm ffioedd yn 2022/23 yn effeithio ar y ddwy flynedd nesaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Memorandwm o Gytundeb rhwng y Brifysgol a North Wales Science Ltd.<br><br>NODI'R rhagfynegiadau diwygiedig hyd at 2024/25.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 10 Chwefror, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **22.63.03 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023.<br>(ii) Datganiad gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y Bwrdd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnu sylw at sut y gwnaeth y Pwyllgor ystyried y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd, a oedd wedi'i adolygu hefyd o bersbectif cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022.<br><br>CYMERADWYO datganiad gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y Bwrdd.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 10 Tachwedd, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.63.04 Yr Is-gwmnïau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion:<br>(i) Cyfarfod Glyndwr Innovations Ltd., 18 Ionawr 2023.<br>(ii) Cyfarfodydd North Wales Science, 30 Ionawr 2023 a 20 Chwefror 2023.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnodion, a ddosbarthwyd ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |

Diwedd